**Calennig**
(20241231)

Berw bore â bwriad - a burum
Y bara'n ysgogiad;
Dawn heddwch, adnewyddiad
A'r trywydd hwyr at ryddhad.

Coelio ar fore Calan, yn y bôn
Taw'r Iôn llywia'r winllan;
Pob cam, coelio mewn amcan
Rhedeg lot i'r Ysbryd Glân.

Tad dylanwad eleni yw'r ffyddlon
Sy'n galon drwy gyni;
A gorau gwas tras y Tri
Yw dyn â dawn daioni.